*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Jess Daniel - Gwasanaethau Democrataidd (07385401877)

Bydd cyfarfod Hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 2AIL RHAGFYR, 2021** am **3.00 PM.**

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 30 TACHWEDD 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 21.10.21**

Cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021.

**5 - 10**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF: 20/1381**

Trosi'r llawr cyntaf presennol yn chwe fflat gyda chyfleusterau en-suite a chreu mannau parcio cysylltiedig. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 27/03/2021).
**Tafarn Tynte Hotel, Yr Heol Fawr, Tyntetown, Abercynon, Aberpennar**

**11 - 18**

**6. CAIS RHIF: 21/0798**

Bloc llety gwestai deulawr arfaethedig (derbyniwyd cynllun â ffin llinell goch ddiwygiedig 16/09/21)
**Tafarn y New Inn, Coedlan Smiths, Rhigos, Aberdâr**

**19 - 32**

**7. CAIS RHIF: 21/0805**

Amrywio amod 1(c) i ganiatáu blwyddyn arall ar gyfer cyflwyno materion wedi'u cadw'n ôl ac estyn amod 1(d) am gyfnod o flwyddyn er mwyn dechrau'r datblygiad. Newid geiriad Amod 11 i ganiatáu ar gyfer dull graddol o ddatblygu'r safle (Derbyniwyd y disgrifiad diwygiedig ar 17/09/2021)
**Stryd Blake, Maerdy, Glynrhedynog**

33 - 48

**8.** **CAIS RHIF: 21/1165**

Newid defnydd o safle i deithwyr i fan storio carafanau.
**Stable View, Heol yr Arhosfa, Rhigos, Aberdâr**

49 - 58

**9.** **CAIS RHIF: 21/1179**

Dymchwel The Dragon (The Bridge Inn gynt) a Rhif 1 Stryd Saron, a chodi 5 uned bwrpasol i fyfyrwyr (sui generis). Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 19/10/21.
**The Dragon Inn a Rhif 1 Stryd Saron, Trefforest, Pontypridd**

59 - 74

**10.** **CAIS RHIF: 21/1308**

Adeiladu uned ddiwydiannol unllawr (at ddefnydd dosbarth B1, B2 neu B8) yn lle hen adeilad wedi'i ddifrodi gan dân
**Unedau 1 a 2, Enterprise House, Heol y Gamlas, Cwmbach, Aberdâr**

75 - 84

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

**11.** **CAIS RHIF: 21/1190**

Newid defnydd hen adeilad swyddfa (Defnydd Dosbarth A2) i 12 fflat (Defnydd Dosbarth C3a) a gweithiau cysylltiedig.
**Marchant Harris and Co, Siambrau Biwt, 54-55 Stryd Biwt, Aberdâr**

85 - 94

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**12.** **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 15/11/2021 – 19/11/2021.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

95 - 104

**13.** **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**<u>Cylchrediad:-</u>**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd R Yeo, Y Cynghorydd D Williams ac Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd